BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES

# Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn dadansoddi allforion bwyd a diod Cymru yn 2015. Mae’n diweddaru’r adroddiad blaenorol oedd yn rhoi data hyd at 2014. Rhoddir tueddiadau ar gyfer 2005 i 2015.

Mae ffigyrau 2014 wedi’u cynnwys er mwyn cymharu. Mae rhywfaint o ddata 2014 wedi’i ddiweddaru gan yr HMRC felly mae rhai newidiadau yn ffigyrau 2014 o’r adroddiad blaenorol.

Ynghyd â chyfanswm yr allforion bwyd a diod, mae’r adroddiad yn eu rhannu i is-sectorau, cyrchfannau a chymharu â holl allforion Cymru.

Lle caiff nwyddau eu masnachu’n fyd-eang, rydym yn cynnwys Crynodeb Marchnad Fyd-eang o dueddiadau a rhagolygon.

Am resymau diogelu data, nid oedd yn bosibl rhannu’r data yn is na’r lefel is-sectorau.

# Cyfanswm Allforion Bwyd a Diod

**Crynodeb o Berfformiad Allforio**

- Mae **cyfaint** allforion bwyd a diod Cymru wedi tyfu o 67,000 tunnell yn 2005 i **115,464 yn 2015 – cynnydd o 72%**. Mae'r cyfaint ychydig yn is (-1.4%) na 2014 (117,000 tunnell).
- Mae'r **gwerth** wedi tyfu o £135m ym mhrisiau 2005 i **£264m ym mhrisiau 2015** - **cynnydd o 95%.** Mae'r gwerth 13% yn is na 2014 (£302m).
- **Mae'r cwymp hwn yn bennaf yn sgil cynnyrch llaeth, cig a chynnyrch cig, a bwyd môr. Mae'r sector 'Arall' wedi tyfu'n sylweddol mewn cyfaint a gwerth.**
- **I gymharu, mae allforion bwyd a diod y DG 10% yn uwch mewn cyfaint a 3% yn is mewn gwerth (2014-15).**
- **Mae cyfran uchel allforion cynnyrch llaeth Cymreig wedi taro ffigyrau Cymru drwyddi draw yn anghymesur o'i gymharu â gweddill y DG.**
- **Mae'r gyfradd gyfnewid wedi bod yn factor yn y gostyngiad mewn allforion** gydag Ewro wan trwy lawer o 2015 yn golygu nad oedd allforion Cymreig i'r Undeb Ewropeaidd yn gystadleuol, tra'r oedd Doler gref wedi cefnogi cynnydd mewn allforion i Ogledd America.

Mae'r newid drwyddi draw wedi bod yn sylweddol wahanol rhwng yr is-sectorau, fel mae'r tabl isod yn dangos. Dylid ystyried ffigyrau 2015 fel y data cyntaf. Sylwch fod yr HMRC wedi diwygio rhai o ffigyrau 2014 oedd yn yr adroddiad blaenorol gan fod y rhai gwreiddiol yn rhai dros dro.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Bwyd a Diod Cymru - Gwerth**

| Is-sector | Gwerth Adwerthu 2015 (£000) | % newid o 2014 i 2015 | Cyfaint Adwerthu 2014 (£000) Diwygedig | % newid o 2005 i 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig[1] | £30,422 | -18% | £37,054 | -25% |
| Llaeth a Wyau | £109,451 | -25% | £145,227 | 363% |
| Diodydd | £9,349 | 6% | £8,836 | 111% |
| Grawn a Startsh | £42,716 | 5% | £40,849 | 231% |
| Bwyd Anifeiliaid | £10,833 | 12% | £9,710 | 492% |
| Ffrwythau a Llysiau | £4,043 | -14% | £4,682 | 39% |
| Bwyd Môr | £29,263 | -18% | £35,562 | 57% |
| Olew a Braster | £1,103 | 12% | £987 | 141% |
| Cynnyrch Arall | £27,051 | 40% | £19,345 | -9% |
| **Cyfanswm allforion bwyd a diod Cymru** | **£264,231** | **-13%** | **£302,252** | **95%** |
| **Cyfanswm allforion bwyd a diod y DG** | **£18,447,360** | **-3%** | **£19,063,770** | **79%** |
| Cyfanswm holl allforion Cymru | £12,200,136 | -8.2% | £13,291,084 | **41%** |

Cafwyd gostyngiad o 5% yng ngwerth allforion bwyd a diod yr Alban rhwng 2014 a 2015

[1] Gweler hefyd ffigyrau eraill gan HCC.


BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Bwyd a Diod Cymru - Cyfaint**

| Is-sector | Gwerth Adwerthu 2015 (tunnell) | % newid o 2014 i 2015 | Cyfaint Adwerthu 2014 (tunnell) Diwygedig | % newid o 2005 i 2015 |
|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig[2] | 8,970 | -38% | 14,382 | -45% |
| Llaeth a Wyau | 53,392 | -1% | 54,169 | 450% |
| Diodydd | 10,619 | -5% | 11,200 | -15% |
| Grawn a Startsh | 13,680 | 12% | 12,172 | 139% |
| Bwyd Anifeiliaid | 4,654 | 6% | 4,400 | 579% |
| Ffrwythau a Llysiau | 3,415 | -11% | 3,824 | 16% |
| Bwyd Môr | 9,963 | -1% | 10,112 | 0% |
| Olew a Braster | 330 | 2% | 323 | 40% |
| Cynnyrch Arall | 10,441 | 59% | 6,557 | -18% |
| **Cyfanswm allforion bwyd a diod Cymru** | **115,464** | **-1.4%** | **117,139** | **72%** |
| **Cyfanswm allforion bwyd a diod y DG** | **14,554,571** | **+10%** | **13,202,348** | **18%** |
| Cyfanswm holl allforion Cymru | 9,909,036 | +11% | 8,901,947 | -11% |

Cafwyd gostyngiad o 5% yng nghyfaint allforion bwyd a diod yr Alban rhwng 2014 a 2015
Mae dadansoddiad o werth yr allforion i'w weld isod.


**Dadansoddiad o Werth Adwerthu Bwyd a Diod Cymru yn ôl Is-sector 2015**




Mae dadansoddiad o gyrchfannau'r allforion yn 2015 i'w weld isod.

[2] Gweler hefyd ffigyrau eraill gan HCC.

**Dadansoddiad o Gyrchfannau Allforion Bwyd a Diod Cymru 2015**




Mae’r is-sectorau unigol yn cael eu cyflwyno yn y tudalennau canlynol:

Mae'r tueddiadau yn y cyrchfannau allforio rhwng 2005 a 2015 i'w gweld yn y tabl isod. Mae uchafbwyntiau'r newidiadau rhwng 2014 a 2015 yn cynnwys:

- Mae Ffrainc wedi parhau fel prif gyrchfan, gan dyfu mewn gwerth yn gynt na mewn cyfaint.
- Mae'r Iwerddon wedi bod yn gyson o ran cyfaint, ond mae'r gwerth wedi gostwng; gyda darlun tebyg yn Sbaen.
- Mae Gwlad Belg wedi colli ei safle (4ydd) i'r Almaen, sydd wedi cynyddu o ran cyfaint a gwerth. Mae cwymp Gwlad Belg yn sgil colli allforion llaeth.
- Mae Gogledd America wedi cynyddu'n sylweddol o ran cyfaint a gwerth, yn sgil cyfraddau cyfnewid cadarnhaol, er bod gwerth yn dal yn is na 2005.

**Dadansoddiad o'r Prif Gyrchfannau yn ôl Gwerth a Chyfaint yn 2015 yn erbyn 2014 a 2005-15**

| Gwlad | Gwerth Adwerthu 2015 (£000) | Gwerth Adwerthu 2014 (£000) diwygedig | % newid o 2005 i 2015 | Cyfaint Adwerthu 2015 (tunnell) | Cyfaint Adwerthu 2014 (tunnell) diwygedig | % newid o 2005 i 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrainc | £53,225 | £55,803 | 63% | 23,592 | 19,422 | 55% |
| Iwerddon | £51,835 | £55,157 | 98% | 25,072 | 25,318 | 56% |
| Sbaen | £33,993 | £39,456 | 191% | 11,570 | 11,883 | 204% |
| Yr Almaen | £22,960 | £22,376 | 95% | 9,936 | 8,320 | 194% |
| Gwlad Belg | £20,398 | £31,212 | 954% | 7,878 | 9,314 | 524% |
| Yr Iseldiroedd | £15,315 | £24,141 | 110% | 10,894 | 13,926 | 6% |
| Yr Eidal | £13,261 | £19,895 | 88% | 6,202 | 7,384 | 97% |
| Gogledd America | £14,256 | £7,119 | -16% | 5,950 | 2,164 | 0% |
| Asia ac Oceania | £10,503 | £11,381 | 105% | 2,976 | 2,729 | 38% |
| Arall | £28,485 | £35,712 | 92% | 11,394 | 16,679 | 97% |
| **Cyfanswm** | **£264,231** | **£302,286** | **95%** | **115,464** | **117,139** | **72%** |

Gan ystyried y prif gyrchfannau yn ôl gwerth y cynnyrch, yn y tabl dros y dudalen, gallwn weld:

- Pwysigrwydd llaeth i'r Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg a'r Almaen
- Pwysigrwydd cig i Ffrainc a'r Iwerddon.
- Pwysigrwydd grawnfwydydd i Ffrainc, Iwerddon a Gogledd America.
- Pwysigrwydd bwyd môr i Sbaen a diodydd i Ffrainc.
- Bod cynnyrch bwytadwy amrywiol wedi cynyddu i Ogledd America.

**Dadansoddiad o'r Prif Gyrchfannau yn ôl Cynnyrch 2015 - Gwerth (£'000)**

| Gwerth (£000) | Ffrainc | Iwer-ddon | Sbaen | Belg | Iseldir-oedd | Almaen | Eidal | Asia ac Oceania | Gog. Amer-ica |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anifeiliaid Byw | | 575 | 31 | | | | | 31 | 74 |
| Cig a Chynnyrch | 9,020 | 8,057 | 3,148 | 2,038 | 3,067 | 1,232 | N/A | 37 | |
| Llaeth a Wyau | 20,283 | 22,362 | 7,727 | 17,792 | 6,431 | 14,060 | 11,931 | 476 | 594 |
| Bwyd Môr | 3,334 | 734 | 16,792 | 142 | 3,353 | 53 | 68 | 4,275 | 90 |
| Grawn a Startsh | 11,557 | 11,204 | 1,844 | 68 | 982 | 302 | 678 | 2,463 | 3,393 |
| Ffrwythau a Llysiau | 216 | 1,281 | 1,215 | 5 | 5 | 35 | | 339 | 49 |
| Siwgr a Mêl | 469 | 556 | 353 | 3 | 108 | 176 | 62 | 518 | 214 |
| Coffi a The | 950 | 1,209 | 465 | | 47 | 124 | 3 | 156 | 12 |
| Bwyd Anifeiliaid | 202 | 2,241 | 349 | 61 | 212 | 5,857 | | 229 | 5 |
| Bwytadwy Amrywiol | 3,089 | 2,961 | 1,567 | 112 | 825 | 818 | 222 | 867 | 8,159 |
| Diodydd | 4,089 | 575 | 446 | 165 | 257 | 203 | 237 | 1,076 | 1,397 |
| Braster | 16 | 80 | 56 | 12 | 28 | 100 | 60 | 36 | 269 |
| **Cyfanswm** | **53,225** | **51,835** | **33,993** | **20,398** | **15,315** | **22,960** | **13,261** | **10,503** | **14,256** |

## Allforion Is-sector Becws

Mae ffigyrau allforion becws wedi'u cynnwys o fewn 'Cynnyrch Arall'. Yn draddodiadol, mae mwyafrif cynnyrch becws wedi bod ar gyfer y farchnad ddomestig.

# Allforion yr Is-sector Cig a Chynnyrch Cig

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforion yr HMRC yn cynnwys cig a chynnyrch cig, ac anifeiliaid byw.
- Drwyddi draw, mae allforion wedi gostwng o £40.7m yn 2005 i £30m yn 2015, er i'r ffigyrau amrywio llawer yn y cyfnod, gyda 2011 a 2013 yn flynyddoedd brig ar £61m a £56.7m.
- Mae pryderon am reoleiddio, lles ac afiechydon anifeiliaid wedi golygu fod allforion anifeiliaid byw wedi gostwng o uchafbwynt o £10.2m yn 2006 i ffigyrau llawer is o rhwng £134,000 ac £1.8m dros y cyfnod. Gwlad Belg yw'r prif gyrchfan yn yr Undeb Ewropeaidd, a'r Dwyrain Canol a Gogledd America yw'r prif gyrchfannau eraill. Mae llawer o'r fasnach mewn stoc bridio o ansawdd uchel.
- Mae Cig a Chynnyrch Cig felly'n cyfrif am drwch gwerth a chyfaint allforio. Tra cafwyd gostyniad o 38% yn 2015 o'i gymharu â 2014, 18% oedd y gostyngiad mewn gwerth. Cyfaint allforio o 9,000 tunnell yn 2015 oedd yr isaf dros y ddegawd ddiwethaf, draean yn is na'r isafbwynt blaenorol yn 2009. .
- Mae HCC yn casglu ei ffigyrau allforion ei hun ar PGI Cig Oen a Chig Eidion Cymru. Mae ffigyrau HCC yn dangos fod allforion cig coch yn £189m yn 2014.
- Ffrainc, Iwerddon, Sbaen, Yr Iseldiroedd a Gwlad Belg oedd 5 prif gyrchfan 2015. Daeth Sbaen yn drydydd prif fewnforiwr gan fod allforion i'r Iseldiroedd 60% yn is na 2014 ar £3m.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Iwerddon a'r Iseldiroedd.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Anifeiliaid Byw, Cig a Chynnyrch Cig**

| Gwerth Allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig | £30,422 | £37,054 | £56,674 | £48,184 | £61,736 | £44,861 | £27,668 | £29,786 | £26,241 | £46,894 | £40,738 |
| Yn cynnwys: | | | | | | | | | | | |
| Anifeiliaid Byw | £2,270 | £1,164 | £918 | £1,033 | £553 | £575 | £134 | £778 | £1,820 | £10,175 | £8,835 |
| Cig a Chig wedi'i baratoi | £28,152 | £35,890 | £55,756 | £47,151 | £61,183 | £44,286 | £27,534 | £29,008 | £24,421 | £36,719 | £31,903 |
| Anfonwyd i[3]: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 98% | 98.1% | 97.8% | 97.6% | 99.0% | 97.6% | 99.4% | 99.8% | 99.8% | 99.9% | 99.9% |
| Arall | 2% | 1.9% | 2.2% | 2.4% | 1% | 2.4% | 0.6% | 0.2% | 0.2% | 0.1% | 0.1% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint Allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cig a Chynnyrch Cig | 8,970 | 14,382 | 21,220 | 19,497 | 22,085 | 16,540 | 13,785 | 14,914 | 14,436 | 19,182 | 16,454 |
| Yn cynnwys: | | | | | | | | | | | |

[3] Cig a chynnyrch cig yn unig.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anifeiliaid Byw | 140 | 45 | 20 | 103 | 70 | 89 | 1 | 4 | 13 | 384 | 64 |
| Cig a Chig wedi'i baratoi | 8,830 | 14,337 | 21,200 | 19,394 | 22,015 | 16,451 | 13,784 | 14,910 | 14,423 | 18,798 | 16,390 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

- Mae dadansoddiad gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn dangos fod cydberthynas rhwng prisiau ŵyn byw a chyfradd gyfnewid yr Ewro:Sterling.
- Mae cryfder y bunt yn erbyn yr ewro yn lleihau pa mor gystadleuol yw'r DG o fewn y farchnad adwerthu.
- Ffrainc yw'r brif farchnad ar gyfer allforion cig oen y DG. Serch hynny, mae dadansoddiad gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn dangos fod cyfanswm mewnforion cig oen Ffrainc i lawr yn 2015, gyda phob prif gyflenwr (ac eithrio Seland Newydd) yn gweld gostyngiad mewn masnach. Roedd gwerth y bunt yn ei gwneud yn arbennig o anodd i'r DG. Roedd allforion cig oen y DG 22% yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd cyfanswm cyfaint allforion cig eidion y DG 11% yn is na 2014. Caiff y gostyngiad yn y llwythi i'r Iseldiroedd, sy'n cael ei adlewyrchu yn nata Cymru, ei esbonio gan ostyngiad mewn allforion carcasau cig. Mae dadansoddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn dadlau fod symudiad oddi wrth allforion cig carcas gwerth is o'r DG i'r rhannau gwerth uwch. Mae cystadleuaeth gref a gwerth y bunt yn gyrru'r duedd oddi wrth allforion cig carcas.
- Roedd allforion cig moch 2% yn uwch na 2014 yn sgil cynnydd mewn allforion cig moch ac offal i Tsieina. Mae materion yn ymwneud ag iechyd cig moch yr Unol Daleithiau ac embargo ar fewnforio o Rwsia wedi effeithio ar y farchnad gig moch fyd-eang.
- Mae allforion dofednod y DG yn 2015 yn is na chyfnodau cyfatebol 2014 a 2013 yn sgil achosion o ffliw adar yn y DG yn arwain at rai gwledydd yn gwahardd dofednod y DG ac effaith y bunt gref.
- Mae adroddiad Rhagolygon Amaethyddiaeth 2015 yr OECD yn disgwyl i'r allbwn cig byd-eang barhau i gynyddu, er yn arafach na'r ddegawd ddiwethaf. Rhagwelir y bydd mwyafrif y twf (75%) mewn gwledydd sy'n datblygu. Rhagwelir mai twf mewn bwyta dofednod fydd yn arwain yn bennaf at y twf yn y cig fydd i'w fwyta'n fyd-eang.
- Effaith cytundebau masnachu a materion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid yw'r ddwy factor sy'n achosi ansicrwydd yn y rhagolygon masnach fyd-eang.

# Allforion Is-sector Llaeth a Wyau

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforion yr HMRC yn cynnwys cynnyrch llaeth a wyau.
- Drwyddi draw, mae allforion wedi cynyddu chwephlyg mewn gwerth, o £23.6m i £145m yn 2014, y lefel uchaf hyd yma. Rhwng 2010 a 2011 dyblodd yr allforion gan awgrymu newid yng ngallu Cymru i gynhyrchu
- Serch hynny, mae'r data diweddaraf yn dangos fod allforion 25% yn is mewn gwerth na 2014, ac 1% yn is mewn cyfaint.
- Caiff mwyafrif llaeth Cymru gaiff ei gadw yng Nghymru i'w brosesu (tua 90%) ei brosesu'n gaws. Mae'r farchnad nwyddau'n dylanwadu'n gryf ar Gymru, sydd wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Yr Undeb Ewropraidd sy'n cyfrif am drwch yr allforion. Serch hynny, mae Rwsia wedi tyfu'n gryf fel cyrchfan ers 2010 i gyrraedd £1.7m yn 2014, cyn i'r embargo masnach yn 2015 atal allforion. Mae Gogledd America wedi cynyddu ers 2013 i gyrraedd £0.59m yn 2015.
- Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg, Yr Almaen a'r Eidal oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015. Cafwyd gostyngiad sylweddol i bob prif gyrchfan, ac eithrio'r Almaen, lle'r oedd allforion 2% yn uwch.
- Roedd y gostyngiad mwyaf syfrdanol yn yr allforion i Wlad Belg, gyda gostyngiad o bron i 60% o fod yn brif gyrchfan yn 2014 ar £28m i £18m yn 2015. Mae Gwlad Belg wedi rhoi 8,000 tunnell o bowdwr llaeth sgim yn y cynllun ymyrraeth, gan ddangos fod gorgynhyrchu cynnyrch llaeth.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Iwerddon, Ffrainc, Yr Almaen, America Ladin a Sweden.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Llaeth a Wyau**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth a wyau | £109,451 | £145,227 | £138,414 | £111,016 | £127,037 | £64,125 | £40,313 | £40,001 | £6,248 | £15,912 | £23,637 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 98.1% | 97.5% | 97.7% | 97.2% | 97.7% | 96.8% | 92.4% | 98.7% | 98.6% | 98.7% | 97.0% |
| Arall | 1.9% | 2.5% | 2.3% | 2.8% | 2.3% | 3.2% | 7.6% | 1.3% | 1.4% | 1.3% | 3% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth a wyau | 53,392 | 54,169 | 48,201 | 43,901 | 45,280 | 25,602 | 20,178 | 16,822 | 2,688 | 6,752 | 9,707 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

# Allforion Is-sector Diodydd

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys diodydd alcoholig a di-alcohol. Mae coffi, te a choco wedi'u cynnwys o dan 'Arall'.
- Drwyddi draw, mae allforion wedi cynyddu o £4.4m i £9.3m yn 2015, er bod amrywiaeth fawr wedi bod, gydag uchafswm gwerth o £20m yn 2010.
- Mae cyfaint wedi gostwng ychydig (o 12,400 i 10,600 tunnell) sy'n awgrymu fod gwerth y diodydd wedi cynyddu yn erbyn cyfaint gweddol sefydlog.
- Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am tua dau draean o'r allforion, er bod hyn wedi amrywio'n fawr o 39% i 89%.
- Ffrainc, Gogledd America, Asia, Iwerddon a'r Iseldiroedd oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015. Yn 2005 y prif gyrchfannau oedd Gogledd America, Ffrainc, Iwerddon, Asia a Sbaen.
- Gwelodd 2015 gynnydd dramatig mewn allforion i Ffrainc, i fyny o £1.4m yn 2014 i £4m yn 2015, gan gyfrif am 40% o'r holl allforion.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Diodydd**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diodydd | £9,349 | £8,836 | £9,254 | £8,308 | £10,906 | £20,359 | £10,701 | £4,655 | £4,589 | £5,271 | £4,429 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 68.7% | 66.8% | 74.5% | 75.2% | 80.2% | 89.3% | 79.8% | 56.2% | 39.4% | 54.5% | 57.5% |
| Arall | 31.2% | 33.2% | 25.5% | 24.8% | 19.8% | 10.7% | 20.2% | 43.8% | 60.6% | 45.5% | 42.5% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diodydd | 10,619 | 11,200 | 11,813 | 12,605 | 13,928 | 12,329 | 11,472 | 10,949 | 11,474 | 10,296 | 12,444 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

# Allforion Is-sector Grawn a Startsh

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys grawnfwydydd a grawnfwydydd wedi'u paratoi ac eithio bwyd anifeiliaid.
- Drwyddi draw, mae allforion wedi gweld cynnydd triphlyg mewn gwerth o £12.9m i £42.7m yn 2015, ychydig yn uwch na'r uchafbwynt blaenorol o £41.5m yn 2011.
- Mae allforion wedi gweld cynnydd deublyg mewn cyfaint o 5,700 i 13,700 tunnell.
- Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am drwch yr allforion, er bod allforion i du allan i'r Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu o 8.9% i 17.0%, gan godi i'r lefel uchaf yn 2014.
- Ffrainc, Iwerddon, Sweden, Gogledd America ac Asia oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Ffrainc, Iwerddon, Groeg, Malta a Chyprus.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Grawn a Startsh**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grawn a Startsh | £42,716 | £40,849 | £41,410 | £39,056 | £41,518 | £40,745 | £36,702 | £25,853 | £19,965 | £14,129 | £12,920 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 83% | 82.3% | 86.0% | 88.7% | 94.2% | 94.6% | 96.0% | 94.0% | 94.1% | 93.9% | 91.1% |
| Arall | 17.0% | 17.7% | 14.0% | 11.3% | 5.8% | 5.4% | 4.0% | 6.0% | 5.9% | 6.1% | 8.9% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grawn a Startsh | 13,680 | 12,172 | 12,631 | 12,621 | 13,328 | 12,746 | 11,154 | 9,429 | 7,902 | 6,517 | 5,714 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

**Crynodeb o'r Farchnad Fyd-eang**

Mae Rhagolygon Amaethyddiaeth y Mudiad Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD) a Mudiad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig (FAO) 2015 yn nodi y bydd y tuedd hanesyddol o wledydd datblygedig yn masnachu gwenith a grawn bras gyda gwledydd sy'n datblygu yn parhau dros y ddegawd nesaf, gyda chynhyrchiant yn parhau ymhlith y cynhyrchwyr presennol. Mae'r galw byd-eang am rawn yn cael ei yrru gan alw cynyddol o Tsieina a thwf mewn poblogaeth fyd-eang. Daw'r galw am rawn bras o'r twf mewn da byw mewn gwledydd sy'n datblygu. Caiff reis ei fasnachu'n bennaf rhwng gwledydd sy'n datblygu.

# Allforion Is-sector Bwyd Anifeiliaid

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys bwydydd ar gyfer anifeiliaid (heb gynnwys grawnfwydydd heb eu malu).
- Drwyddi draw, mae'r allforion cynyddu chwephlyg mewn gwerth, o £1.8m i £10.8m yn 2015, i lawr ychydig o'r uchafbwynt o £11.1m yn 2013, ond yn uwch na 2014.
- Mae'r allforion wedi gweld cynnydd seithplyg mewn cyfaint o 685 i 4,700 tunnell.
- Yr Undeb Ewropeaidd sy'n cyfrif am drwch yr allforion, ar 89.7%, er i allforion i du allan i'r Undeb Ewropeaidd gyrraedd uchafbwynt o 31.8% yn 2011.
- Yr Almaen, Iwerddon, Gorllewin Ewrop (y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd), Y Weriniaeth Tsiec a Sbaen oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Yr Almaen, Iwerddon, Ffindir, Yr Iseldiroedd a Sweden.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Bwyd Anifeiliaid**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwyd Anifeiliaid | £10,833 | £9,710 | £11,103 | £9,398 | £8,765 | £6,035 | £5,212 | £3,592 | £4,057 | £1,974 | £1,829 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 89.7% | 92.6% | 84.4% | 83.3% | 68.2% | 80.8% | 83.5% | 83.5% | 97.2% | 95.8% | 94.9% |
| Arall | 10.3% | 7.4% | 15.6% | 16.7% | 31.8% | 19.2% | 16.5% | 16.5% | 2.8% | 4.2% | 5.1% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwyd Anifeiliaid | 4,654 | 4,400 | 4,645 | 6,324 | 3,750 | 2,430 | 2,287 | 816 | 816 | 524 | 685 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

# Allforion Is-sector Ffrwythau a Llysiau

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys llysiau a ffrwythau.
- Drwyddi draw, mae'r allforion wedi cynyddu o £2.9m i £4.7m yn 2014, i lawr o uchafbwynt o £7.2m yn 2011.
- Mae'r allforion wedi cynyddu mewn cyfaint o 2,900 i 3,400 tunnell, i lawr o uchafbwynt o 5,600 tunnell yn 2011.
- Cyrhaeddodd allforion o du allan i'r Undeb Ewropeaidd uchafbwynt o 40.5% yn 2014, ond gan ostwng i 18.6% yn 2015.
- Iwerddon, Sbaen, Asia, Gorllewin Ewrop (y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd) a'r Weriniaeth Tsiec oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Iwerddon, Yr Iseldiroedd, Gogledd America, Asia a Sbaen.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Ffrwythau a Llysiau**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrwythau a Llysiau | £4,043 | £ 4,682 | £ 6,108 | £ 5,412 | £ 7,206 | £ 6,749 | £ 6,140 | £ 4,283 | £ 4,258 | £ 4,044 | £ 2,901 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 81.4% | 59.5% | 69.6% | 79.8% | 85.3% | 91.3% | 93.7% | 93.5% | 89.7% | 93.7% | 85.0% |
| Arall | 18.6% | 40.5% | 30.4% | 20.2% | 14.7% | 8.7% | 6.3% | 6.5% | 10.3% | 6.3% | 15.0% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffrwythau a Llysiau | 3,415 | 3,824 | 3,997 | 4,188 | 5,648 | 5,187 | 4,129 | 3,344 | 3,339 | 3,449 | 2,934 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

# Allforion Is-sector Bwyd Môr

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys pysgod, cramenogion, molysgiaid, infertebratau'r môr a bwyd môr wedi'i baratoi.
- Drwyddi draw, mae'r allforion wedi cynyddu o £18.7m i £29.3m yn 2015, 18% yn is na 2014.
- Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwerth, dim ond ychydig o ostyngiad a gafwyd mewn cyfaint, o 10,112 i 9,963 tunnell, i lawr o uchafbwynt o 14,232 yn 2012 ac uchafbwynt blaenorol o 14,902 yn 2009.
- Mae allforion i du allan yr Undeb Ewropeaidd wedi gostwng o 19.1% i 15.1%.
- Sbaen yw'r brif gyrchfan, ar 57% o'r gwerth yn 2015, i fyny o 47% yn 2005.
- Sbaen, Asia, Yr Iseldiroedd, Ffrainc a'r Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Sbaen, Yr Iseldiroedd, Ffrainc, Iwerddon a'r Eidal.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Bwyd Môr**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwyd Môr | £29,263 | £35,562 | £35,943 | £36,080 | £36,748 | £33,056 | £36,657 | £19,586 | £18,752 | £20,868 | £18,698 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 84.9% | 87.9% | 85.8% | 86% | 88.8% | 87.0% | 82.9% | 75.6% | 80.5% | 86.1% | 80.9% |
| Arall | 15.1% | 12.1% | 14.2% | 14.0% | 11.2% | 13.0% | 17.1% | 26.2% | 19.5% | 13.9% | 19.1% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwyd Môr | 9,963 | 10,112 | 12,642 | 14,232 | 12,270 | 12,850 | 15,433 | 8,927 | 9,740 | 9,742 | 9,969 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

**Crynodeb o'r Farchnad Fyd-eang**

Yn ôl Rhagolygon Amaethyddiaeth OECD a FAO 2015, mae pysgod acwafeithrin wedi goresgyn pysgod wedi'u dal fel y prif ffynhonnell o bysgod i'w bwyta gan bobl am y tro cyntaf yn 2014. Disgwylir i Asia barhau i yrru'r newid mewn pysgodfeydd byd-eang o ran cynhyrchu, masnachu a bwyta. Serch hynny, gwelodd 2014 dwf sylweddol ym marchnad yr Unol Daleithiau, oedd o fudd i gynhyrchwyr y farchnad ac allforion o Norwy.

Rhagwelir y bydd masnach bysgod fyd-eang yn arafach yn y ddegwad nesaf na'r ddegawd ddiwethaf, gan adlewyrchu cynnydd mewn bwyta pysgod domestig mewn gwledydd sy'n datblygu. Bydd rhanbarthau datblygedig yn parhau yn brif fewnforwyr y fasnach fyd-eang.

# Allforion Is-sector Olew a Braster

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys olew a braster anifeiliaid a llysiau.
- Drwyddi draw, mae'r allforion wedi cynyddu o £0.46 i £1.1m yn 2015, ond i lawr o uchafbwynt o £3.6m yn 2011.
- Mae'r allforion wedi cynyddu mewn cyfaint o 235 i 330 tunnell, ond i lawr o uchafbwynt o 967 tunnell yn 2010 (i Ddenmarc yn bennaf).
- Mae allforion i du allan yr Undeb Ewropeaidd wedi tyfu'n gryf i gyrraedd uchafbwynt o 49% yn 2015 – i fyny o 15% ar ddechrau'r cyfnod.
- Gogledd America, Gwlad Pwyl, Gorllewin Ewrop (y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd), Yr Almaen a'r Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Gwledydd i'r De o'r Sahara, Iwerddon, America Ladin, Gogledd America a Gorllewin Ewrop (y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd).

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion Olew a Braster**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Olew a Braster | £1,103 | £987 | £1,833 | £918 | £3,620 | £2,656 | £2,881 | £2,485 | £689 | £186 | £458 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 51% | 68.9% | 72.5% | 76.0% | 70.6% | 87.5% | 87.5% | 88.0% | 70.7% | 78.5% | 84.9% |
| Arall | 49.0% | 31.1% | 27.5% | 24.0% | 29.4% | 12.5% | 12.5% | 12.0% | 29.3% | 21.5% | 15.1% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Olew a Braster | 330 | 323 | 654 | 344 | 679 | 967 | 875 | 239 | 142 | 108 | 235 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

**Crynodeb o'r Farchnad Fyd-eang**

Yn ôl Rhagolygon Amaethyddiaeth OECD a FAO 2015, mae cynhyrchiant had olew byd-eang yn gynyddol gael ei ddominyddu gan gynhyrchu ffa soia, wedi'i yrru'n bennaf gan alw am fwyd anifeiliaid protein uchel, yn enwedig yn Tsieina. 2014 oedd yr ail flwyddyn olynnol lle cafwyd record cynhyrchu had olew.

# Allforion Is-sector Cynnyrch Bwyd Arall

**Crynodeb o'r Sector**

- Mae ffigyrau allforio'r HMRC yn cynnwys coffi, te a sbeis, siwgr a mêl a chynnyrch bwytadwy amrywiol.
- Mae allforion Cynnyrch Bwyd Arall wedi tyfu'n gryf yn 2015, ar £27m, 40% yn uwch na 2014, ac yn agosau ar yr uchafbwynt o £29.8 yn 2005.
- Cafwyd adferiad mewn cyfaint allforio, ar 10,400 tunnell, 60% yn uwch na chyfaint 2014, ac yn uwch na'r uchafbwynt blaenorol o 8,824 tunnell yn 2005.
- Mae symudiad sylweddol wedi bod yn y ffocws allforio, gydag allforion i du allan yn Undeb Ewropeaidd bellach yn cyfrif am 40% o'r gwerth yn 2015, o'i gymharu â 27% yn 2014.
- Gogledd America, Iwerddon, Ffrainc, Sbaen a'r Almaen oedd y 5 prif gyrchfan yn 2015.
- Yn 2005, y 5 prif gyrchfan oedd Affrica, Iwerddon, America Ladin, Gogledd America a Gorllewin Ewrop (tu allan i'r Undeb Ewropeaidd).
- Gan ystyried **coffi a the**: Iwerddon, Ffrainc, Sbaen Y Dwyrain Canol a G Affrica oedd prif gyrchfannau 2015. Prif gyrchfannau 2005 oedd Yr Almaen, Ffrainc, Yr Iseldiroedd, Sweden a'r Iwerddon.
- Gan ystyried **siwgr a mêl**: Iwerddon, Asia, Ffindir, Ffrainc a Sbaen oedd prif gyrchfannau 2015. Prif gyrchfannau 2005 oedd G America (86%), Ffrainc, Iwerddon, Asia a'r Swistir.
- Gan ystyried cynnyrch **bwytadwy amrywiol**: G America, Ffrainc, Iwerddon, Sbaen ac Asia oedd prif gyrchfannau 2015. Prif gyrchfannau 2005 oedd G America, Ffrainc, Iwerddon, Gwledydd i'r De o'r Sahara a'r Swistir. Mae allforion i Ogledd America wedi cynyddu'n sylweddol o £1.8m yn 2014 i £8.3m yn 2015, gan gyfrif am 43% o'r gwerth allforio. Mae'r cynnydd hwn yn ymateb i gyfraddau cyfnewid ffafriol.

**Crynodeb o'r Ystadegau ar gyfer Allforion 'Cynnyrch Arall'**

| Gwerth allforio £000/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnyrch Arall | £27,051 | £19,345 | £18,739 | £16,863 | £20,258 | £24,006 | £23,579 | £27,931 | £12,139 | £10,946 | £29,845 |
| Yn cynnwys | | | | | | | | | | | |
| Coffi / Te | £3,587 | £3,015 | £3,796 | £4,954 | £5,952 | £8,411 | £9,100 | £14,141 | £2,613 | £3,064 | £8,083 |
| Siwgr a mêl | £3,852 | £3,482 | £3,401 | £3,871 | £4,245 | £3,006 | £3,036 | £2,683 | £2,732 | £1,608 | £9,849 |
| Bwytadwy Amrywiol | £19,612 | £12,848 | £11,542 | £8,038 | £10,061 | £12,589 | £11,443 | £11,107 | £6,794 | £6,274 | £11,913 |
| Anfonwyd i: | | | | | | | | | | | |
| Undeb Ewropeaidd | 59.8% | 72.7% | 81.8% | 80.2% | 70.7% | 62.2% | 79.1% | 75.7% | 64.4% | 67.3% | 43.3% |
| Arall | 40.2% | 27.3% | 18.2% | 19.8% | 29.3% | 37.8% | 20.9% | 24.3% | 35.6% | 32.7% | 56.7% |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC

| Cyfaint allforio tunnell/ Blw. | 2015 | 2014 | 2013 | 2012 | 2011 | 2010 | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 | 2005 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnyrch Arall | 10,441 | 6,557 | 6,044 | 5,424 | 6,023 | 8,125 | 6,945 | 7,610 | 4,650 | 4,188 | 8,824 |
| Yn cynnwys | | | | | | | | | | | |
| Coffi / Te | 869 | 637 | 833 | 986 | 1,246 | 1,969 | 942 | 1,456 | 670 | 795 | 2,152 |
| Siwgr a mêl | 809 | 606 | 808 | 722 | 652 | 792 | 402 | 256 | 327 | 573 | 3,074 |
| Bwytadwy Amrywiol | 8,763 | 5,314 | 4,403 | 3,716 | 4,125 | 5,364 | 5,601 | 5,898 | 3,653 | 2,820 | 3,598 |

Ffynhonnell: Ystadegau Masnach Ranbarthol yr HMRC